O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 579 (Cy.84)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobs Hill, Sir y Fflint, Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin a'r Ffordd Ymadael tua'r Gorllewin) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2011.

Gwnaed *2 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *7 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobs Hill, Sir y Fflint, Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin a'r Ffordd Ymadael tua'r Gorllewin) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feiciau pedal neu feiciau tair olwyn ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Mawrth 2011.

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

Gwahardd Dros Dro Gerbydau a Beicwyr

Y cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin ar gefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 35, Dobs Hill yn Sir y Fflint.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 35A i ganolbwynt Cyffordd 35, Dobs Hill.